

2023 Rhif (Cy.)

2023 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A5
(Stryd Fawr, Bethesda, Gwynedd)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2023

The A5 Trunk Road (High Street,
Bethesda, Gwynedd) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2023

Gwnaed 12 Mai 2023
Yn dod i rym 20 Mai 2023

Made 12 May 2023
Coming into force 20 May 2023

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd bod digwyddiad perthnasol, sef Cárnifal Bethesda, yn cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A5 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited by reason of a relevant event, namely the Bethesda Carnival, being held on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Stryd Fawr, Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Mai 2023.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A5 Trunk Road (High Street, Bethesda, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2023 and this Order comes into force on 20 May 2023.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

- (i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

Interpretation

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:

- (i) any vehicle being used for police, fire or ambulance services purposes;

(1) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994, Section 1(1). By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;
- (iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad ac am resymau diogelwch;

ystyr "cyfnod y digwyddiad" ("*event period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 13:00 o'r gloch ar 20 Mai 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaerdybi.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd ym Methesda, Gwynedd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Ffordd y Stesion hyd at ei chyffordd â'r ffordd fynediad sy'n arwain at y cae pêl-droed.

Cymhwys

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

12 Mai 2023

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

- (ii) any vehicle being used in connection with works to the road or lighting or traffic signs or emergency works to any sewer or to any main or apparatus for the supply of gas, water or electricity, or telecommunications in, or in any land adjacent to, a length of road concerned;
- (iii) any vehicle used by an authorised event official in support of and for reasons of the safety of the relevant event;

"event period" ("*cyfnod y digwyddiad*") means that period commencing at 13:00 hours on 20 May 2023 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A5 London to Holyhead trunk road.

Prohibition

3. No person may, during the event period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road at Bethesda, Gwynedd that extends from its junction with Station Road to its junction with the access road leading to the football ground.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 1 day.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

12 May 2023

Nicci Hunter

Business Team Leader
Welsh Government